

CBAC TGAU

Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o fis Tachwedd 2026

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- [Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru](#) sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- [Amodau Cydnabod Safonol](#) sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- [Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd \(Dwyradd\)](#) sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) o fis Medi 2025 a thu hwnt.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif tudalen
2	Eglurhad ynghylch pryd y bydd angen cwmpawdau yn 3.2.2	30
	Ychwanegu gramau – ownsys o ran trawsnewid unedau yn 3.5.7	35
	Terminoleg wedi'i ddiweddarau	22, 26, 33, 34, 13

CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU.....	5
1. CYFLWYNIAD.....	7
1.1 Nodau.....	7
1.2 Cwricwlwm i Gymru.....	7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant.....	8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad.....	8
1.5 Defnyddio iaith.....	9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg.....	9
2 CYNNWYS Y PWNC.....	10
Uned 1.....	10
Uned 2.....	10
Uned 3.....	10
Meysydd cynnwys.....	11
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu.....	48
3 ASESU.....	49
3.1 Amcanion asesu a phwysoli.....	49
Cwestiynau a osodir mewn cyd-destun.....	51
Trefnu, cyfathrebu ac ysgrifennu'n fanwl gywir.....	51
Defnyddio cyfrifianellau.....	52
Rhestrau fformiwlâu.....	52
4 CAMYMDDWYN.....	57
5 GWYBODAETH DECHNEGOL.....	58
5.1 Cofrestru.....	58
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl.....	59
5.3 Haenu.....	59
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru.....	61

TGAU MATHEMATEG A RHIFEDD (DWYRADD)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)

30% o'r cymhwyster

Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig. Gellir gosod y cwestiynau hyn ynglŷn ag unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd cwestiynau'n cael eu gosod mewn cyd-destunau personol a rhai byd go iawn eraill.

Caniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.

Uned 2: Difyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)

30% o'r cymhwyster

Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig. Gellir gosod y cwestiynau hyn ynglŷn ag unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau heb gyd-destun a chwestiynau wedi'u gosod mewn cyd-destunau mathemategol a chyd-destunau eraill.

Ni chaniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.

Uned 3: Caniateir cyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 2 awr (90 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 45 munud (75 marc)

40% o'r cymhwyster

Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig, sy'n gallu cael eu gosod ar unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd y papur yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau wedi'u gosod mewn cyd-destunau byd go iawn a chyd-destunau eraill, a chwestiynau heb gyd-destun.

Caniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch: A* – D

Haen Sylfaenol: C – G

Gellir cofrestru dysgwyr ar haenau gwahanol ar draws unedau.

Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2026 ac yna byddant ar gael yng nghyfres Tachwedd a chyfres yr haf bob blwyddyn.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026 ac yna bydd ar gael yng nghyfres Tachwedd a chyfres yr haf bob blwyddyn.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4968/0

TGAU MATHEMATEG A RHIFEDD (DWYRADD)

1. CYFLWYNIAD

1.1 Nodau

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn cefnogi dysgwyr i:

- wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd mathemateg a meysydd eraill o'r cwricwlwm
- datblygu eu dealltwriaeth gysyniadol wrth esbonio, mynegi a chynrychioli cysyniadau mewn ffurfiau diriaethol a haniaethol
- cyfleu sefyllfaoedd haniaethol a senarios byd go iawn gan ddefnyddio symbolau a mynegiadau mathemategol
- datblygu eu gallu i ddefnyddio ffeithiau, technegau a pherthnasoedd mathemategol yn rhugl i ddatrys problemau
- adnabod strwythurau mathemategol sylfaenol o fewn problemau a datblygu strategaethau i'w datrys
- datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cysyniadau mathemategol a'r defnydd o gyfiawnhad a phroffion
- sicrhau sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith
- datblygu hyder wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg ddigidol i helpu i ddatrys problemau mathemategol ac ystadegol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r [egwyddorion cynnydd](#), yn ogystal â'r [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#) a'r [sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol](#) hynny a amlinellir yn rhan '[Cynllunio eich Cwricwlwm](#)' Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyffwrdd a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 48; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn cael ei lunio ar sail y pum hyfedredd rhyngddibynnol sy'n ffurfio egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Maes Mathemateg a Rhifedd. Y rhain yw:

- dealltwriaeth gysyniadol
- cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- rhwyddineb
- rhesymu rhesymegol
- cymhwysedd strategol.

Mae cynnwys y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn seiliedig ar y cysyniadau mathemategol a rhifiadol canlynol sy'n ffurfio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Maes Mathemateg a Rhifedd:

- rhif
- algebra
- geometreg a mesurau
- ystadegaeth a thebygolrwydd.

Mae agweddau ar bob cysyniad yn cael eu harchwilio ym mhob un o unedau'r cymhwyster, gan gefnogi'r datganiad 'mae gwahanol feysydd mathemateg yn hynod o ryng-gysylltiedig a dibynnol ar ei gilydd' sydd wedi'i gynnwys yn yr ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn.

Yn ogystal, mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys datblygu llythrennedd ariannol dysgwyr er mwyn cefnogi eu llesiant.

1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Mathemateg naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.4 Orliau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) i'w gyflwyno dros gyfnod o 240 – 280 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddarau terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchoddedig benodol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchoddedig penodol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (<http://www.icq.org.uk/>).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

2 CYNNWYS Y PWNC

Uned 1

Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)

30% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o destunau a chysyniadau sy'n ymwneud â chyllid a datblygu eu llythrennedd ariannol
- caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth ac i gymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol a chyd-destunau eraill o'r byd go iawn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arian a'r gweithle.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Uned 2

Digyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)

30% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw archwilio testunau a chysyniadau mathemategol nad oes angen defnyddio cyfrifiannell ar eu cyfer.

Mae'r uned hon yn cynnwys pob agwedd ar debygolrwydd ac mae'n canolbwyntio'n sylweddol ar geometreg.

Ni chaniateir cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Uned 3

Caniateir cyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig

Haen Uwch: 2 awr (90 marc)

Haen Sylfaenol: 1 awr 45 munud (75 marc)

40% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw archwilio testunau a chysyniadau:

- y mae'n fwyaf priodol eu hasesu gyda chyfrifiannell, neu
- sy'n ffurfio sylfeini ar gyfer testunau y mae'n fwyaf priodol eu hasesu gyda chyfrifiannell, neu sy'n cysylltu â nhw.

Mae'r uned hon yn cynnwys y mwyafrif o destunau sy'n ymdrin ag agweddau ar drin data ystadegaeth ac mae ganddi ffocws sylweddol ar fesurau.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Meysydd cynnwys

Mae cynnwys yr haen sylfaenol mewn testun arferol.

Mae cynnwys yr haen uwch, sy'n ychwanegol i gynnwys yr haen sylfaenol, mewn testun **trwm**.

1. Rhif

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

- 1.1 Rhif a thalgrynnu
- 1.2 Priodweddau rhif gan gynnwys dadelfennu ffactor cysefin
- 1.3 Rheolau indecsau gan gynnwys ffurfiau safonol
- 1.4 Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau
- 1.5 Hyfedredd mewn cyfrifiadau
- 1.6 Terfynau manwl gywirdeb
- 1.7 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth
- 1.8 Menter a chyllid personol/cartref
- 1.9 Rhifau cymarebol ac anghymarebol

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
1.1 Rhif a thalgrynnu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.1.1. darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau	1.1.1. darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau	1.1.1. darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau
	1.1.2. talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf	1.1.2. talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf	1.1.2. talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf
	1.1.3. deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol	1.1.3. deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol	1.1.3. deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol
	1.1.4. talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol	1.1.4. talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol	1.1.4. talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrllon</p> <p>1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol</p> <p>1.1.7 penderfynu a ddylid talgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol, mewn problem</p>	<p>1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrllon</p> <p>1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol</p>	<p>1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrllon</p> <p>1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol</p> <p>1.1.7 penderfynu a ddylid talgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol, mewn problem</p>
	<p>1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol</p>	<p>1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol</p> <p>1.1.9 amcangyfrif datrysiadau i gyfrifiadau rhifiadol drwy frasamcanu'r rhifau yn y cyfrifiadau</p>	<p>1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol</p>
1.2 Priodweddau rhif gan gynnwys dadelfennu ffactor cysefin	Dylai dysgwyr wybod:		
	<p>1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin</p> <p>1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb a thrydydd isradd</p>	<p>1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin</p> <p>1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb, a thrydydd isradd</p> <p>1.2.3 ystyr y term cilydd</p>	<p>1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin</p> <p>1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb a thrydydd isradd</p> <p>1.2.3 ystyr y term cilydd</p>

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>1.2.4 mynegi rhifau fel lluoswm eu ffactorau cysefin ar ffurf indecs</p> <p>1.2.5 dod o hyd i'r lluosrif cyffredin lleiaf (LCM) a'r ffactor cyffredin mwyaf (HCF) gan ddefnyddio dadelfennu ffactor cysefin neu ddulliau priodol eraill</p> <p>1.2.6 defnyddio dadelfennu ffactor cysefin i helpu i ddatrys problemau rhifiadol eraill, gan gynnwys cysylltiadau â rhifau sgwâr</p>	
1.3 Rheolau indecsau gan gynnwys ffurfiau safonol	Dylai dysgwyr wybod:		
	<p>1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif</p> <p>1.3.2 y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif</p>	<p>1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif</p> <p>1.3.2 y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif</p>	<p>1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif</p> <p>1.3.2 y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif</p>
		1.3.3 y nodiant ar gyfer indecsau ffracsiynol	
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
			1.3.4 defnyddio rheolau indecsau i gyflawni cyfrifiadau gyda rhifau sy'n cael eu hysgrifennu ar ffurf indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		1.3.5 defnyddio rheolau indecsau i gyflawni cyfrifiadau gyda rhifau sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf indecs ar gyfer indecsau positif, negatif a ffracsiynol	
	1.3.6 trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol 1.3.7 defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf safonol	1.3.6 trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol 1.3.7 defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf safonol	1.3.6 trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol 1.3.7 defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf safonol
1.4 Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau	Dylai dysgwyr wybod:		
	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		1.4.3 trawsnewid rhifau o un ffurf i ffurf arall 1.4.4 trefnu a chymharu rhifau cyfan, degolion, ffracsiynau a chanrannau	
	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>1.4.8 cyfrifo newidiadau ffracsiynol a chanrannol (cynnydd a gostyngiad)</p> <p>1.4.9 deall a defnyddio lluosyddion</p>		<p>1.4.8 cyfrifo newidiadau ffracsiynol a chanrannol (cynnydd a gostyngiad)</p> <p>1.4.9 deall a defnyddio lluosyddion</p>
	<p>1.4.10 datrys problemau gyda newidiadau cyfranneddol sy'n cael eu hailadrodd</p> <p>1.4.11 cyfrifo gan ddefnyddio cymarebau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd</p> <p>1.4.12 datrys problemau rhifiadol sy'n ymwneud â chyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro</p> <p>1.4.13 darganfod y maint gwreiddiol o wybod canlyniad newid cyfranneddol</p>		
1.5 Hyfedredd mewn cyfrifiadau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau</p> <p>1.5.2 adio, tynnu, lluosï a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr</p> <p>1.5.3 adio, tynnu, lluosï a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif</p>	<p>1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau</p> <p>1.5.2 adio, tynnu, lluosï a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr</p> <p>1.5.3 adio, tynnu, lluosï a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif</p> <p>1.5.4 deall a defnyddio gweithrediadau a ysgrifennwyd fel peiriannau rhif</p>	<p>1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau</p> <p>1.5.2 adio, tynnu, lluosï a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr</p> <p>1.5.3 adio, tynnu, lluosï a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif</p>

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>1.5.5 defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefn gweithrediadau • adio, tynnu, lluosu a rhannu • sgwario, ciwb a phwerau eraill • ail isradd a thrydydd isradd • cromfachau • ffwythiannau priodol eraill • ffurf safonol 		<p>1.5.5 defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefn gweithrediadau • adio, tynnu, lluosu a rhannu • sgwario, ciwb a phwerau eraill • ail isradd a thrydydd isradd • cromfachau • ffwythiannau priodol eraill • ffurf safonol
			<p>1.5.6 defnyddio'r ffwythiannau trigonometrig ar gyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol</p>
1.6 Terfynau manwl gywirdeb	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>1.6.1 talgrynnu ateb i lefel resymol o fanwl gywirdeb ac ystyried y cyd-destun</p> <p>1.6.2 gwybod mai ffigur bras yw mesuriad ac y gall fod cyfeiliornad o hanner uned mewn mesuriad sydd wedi'i fynegi i uned benodol</p> <p>1.6.3 pennu arffiniau isaf ac uchaf rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb</p>		<p>1.6.1 talgrynnu ateb i lefel resymol o fanwl gywirdeb ac ystyried y cyd-destun</p>

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>1.6.4 cyfrifo arffiniau isaf ac uchaf wrth adio, tynnu, lluosu a rhannu rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb</p>		
	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:		
	<p>1.6.5 gall talgrynnu cynamserol mewn problemau sy'n cynnwys sawl cam effeithio ar fanwl gywirdeb yr ateb terfynol</p>		<p>1.6.5 gall talgrynnu cynamserol mewn problemau sy'n cynnwys sawl cam effeithio ar fanwl gywirdeb yr ateb terfynol</p>
1.7 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>1.7.1 dehongli a defnyddio gwybodaeth fathemategol sydd wedi'i chyflwyno ar ffurf ysgrifenedig neu weledol, gan gynnwys ffeithluniau, amserlenni (<i>schedules</i>), tablau, amserlenni (<i>timetables</i>), calendrau a siartiau</p>		
	<p>1.7.2 creu cynlluniau ac amserlenni</p>		
	<p>1.7.3 defnyddio, dehongli a chynhyrchu diagramau Venn</p>	<p>1.7.3 defnyddio, dehongli a chynhyrchu diagramau Venn</p>	

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
1.8 Menter a chyllid personol/cartref	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau
	1.8.2 deall egwyddorion sylfaenol menter a chyllid personol/cartref er mwyn datrys problemau sy'n ymwneud ag, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> • taliadau gweithio a chyflogau, gan gynnwys slipiau cyflog • trethiant, gan gynnwys treth incwm ac Yswiriant Gwladol • cynilion a buddsoddiadau • benthyciadau/ad-daliadau • morgeisi • arbrisant/dibrisant • cyllidebu • cyfriflenni banc • biliau cyfleustodau • biliau ffôn symudol a biliau eraill • TAW • bargeinion gorau • cymharu prisiau • cynlluniau ariannu, gan gynnwys prynu fesul rhandal • disgownt/cynnydd mewn pris • prynu a gwerthu • elw a cholled • teithio gan gynnwys arian cyfred tramor, cyfraddau cyfnewid a chomisiwn 		

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>1.8.3 deall y gwahaniaeth rhwng llog syml ac adlog a gallu gwneud cyfrifiadau gyda'r ddau, gan ddefnyddio dulliau cyfrifo effeithlon a gan gynnwys defnyddio lluosyddion</p> <p>1.8.4 cyflawni cyfrifiadau sy'n cynnwys cyfraddau lluosog</p> <p>1.8.5 cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Gyfwerth Flynyddol (AER) wrth gymharu cynhyrchion ariannol</p> <p>1.8.6 cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR) wrth gymharu cynhyrchion ariannol, gan gynnwys morgeisi</p>		
1.9 Rhifau cymarebol ac anghymarebol	Dylai dysgwyr wybod:		
		1.9.1 bod degolion cylchol yn ffracsiynau union, a bod rhai ffracsiynau union yn ddegolion cylchol	

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		1.9.2 trawsnewid degolion cylchol i ffurf ffracsiynol 1.9.3 gwahaniaethu rhwng rhifau cymarebol ac anghymarebol	
		1.9.4 trin a symleiddio mynegiadau rhifiadol sy'n cynnwys syrdiau 1.9.5 trin a symleiddio mynegiannau rhifiadol mwy cymhleth sy'n cynnwys syrdiau, gan gynnwys llusosi mynegiadau sy'n cynnwys syrdiau a symleiddio ffracsiynau sy'n cynnwys syrdiau drwy rannu ffactorau cyffredin	1.9.4 trin a symleiddio mynegiadau rhifiadol sy'n cynnwys syrdiau
	1.9.6 defnyddio pi mewn cyfrifiadau union		1.9.6 defnyddio pi mewn cyfrifiadau union 1.9.7 defnyddio syrdiau mewn cyfrifiadau union

2. Algebra

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

- 2.1 Confensiynau algebraidd a thrin mynegiadau a fformiwlâu
- 2.2 Hafaliadau ac anhafaleddau – dull algebraidd
- 2.3 Dilyniannau
- 2.4 Cyfesurynnau, graffiau llinol ac aflinol
- 2.5 Graffiau bywyd go iawn

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
2.1 Confensiynau algebraidd a thrin mynegiadau a fformiwlâu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra
	2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau	2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau	2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau
	2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt	2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt	2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt
		2.1.4 adnabod diffiniad y term unfathiant a gallu gwahaniaethu rhwng unfathiannau, hafaliadau, mynegiadau a fformiwlâu	2.1.4 adnabod diffiniad y term unfathiant a gallu gwahaniaethu rhwng unfathiannau, hafaliadau, mynegiadau a fformiwlâu

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau</p> <p>2.1.6 casglu termau tebyg</p> <p>2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau</p>	<p>2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau</p> <p>2.1.6 casglu termau tebyg</p> <p>2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau</p> <p>2.1.8 lluosï a rhannu termau drwy gymhwysu rheolau indecsau</p> <p>2.1.9 symleiddio ffracsiynau algebraidd, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda thermau sy'n gysonion fel enwaduron</p> <p>2.1.10 symleiddio ffracsiynau algebraidd mwy cymhleth, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda mynegiadau llinol fel enwaduron</p> <p>2.1.11 ehangu dau fynegiad llinol mewn un neu ddau newidyn</p> <p>2.1.12 ehangu dau fynegiad mewn un newidyn, lle mae'r naill yn llinol a'r llall yn gwadratig</p>	<p>2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau</p> <p>2.1.6 casglu termau tebyg</p> <p>2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau</p> <p>2.1.8 lluosï a rhannu termau drwy gymhwysu rheolau indecsau</p> <p>2.1.9 symleiddio ffracsiynau algebraidd, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda thermau sy'n gysonion fel enwaduron</p> <p>2.1.10 symleiddio ffracsiynau algebraidd mwy cymhleth, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda mynegiadau llinol fel enwaduron</p> <p>2.1.11 ehangu dau fynegiad llinol mewn un neu ddau newidyn</p> <p>2.1.12 ehangu dau fynegiad mewn un newidyn, lle mae'r naill yn llinol a'r llall yn gwadratig</p>
		<p>2.1.13 ffactorio mynegiadau llinol neu gwadratig sydd ag o leiaf un ffactor cyffredin</p> <p>2.1.14 ffactorio mynegiadau mwy cymhleth drwy echdynnu ffactorau cyffredin</p>	

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>2.1.15 ffactorio mynegiadau cwadratig ar y ffurf $x^2 + ax + b$ a $ax^2 + bx + c$, gan gynnwys gwahaniaeth dau sgwâr</p> <p>2.1.16 newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn un term</p> <p>2.1.17 newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn mwy nag un term</p>	
<p>2.2 Hafaliadau ac anhafaeddau – dulliau algebraidd</p>	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol</p>	<p>2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol</p> <p>2.2.2 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol mwy cymhleth, gan gynnwys hafaliadau gyda mwy nag un term ffracsiynol</p> <p>2.2.3 llunio, trin a datrys anhafaeddau llinol syml gyda chyfernodau rhif cyfan a ffracsiynol</p> <p>2.2.4 llunio, trin a datrys anhafaeddau llinol lle mae'r newidyn yn ymddangos ar ddwy ochr yr anhafaedd neu lle mae dau anhafaedd ar wahân yn cael eu hysgrifennu fel anhafaedd dwbl</p>	<p>2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol</p> <p>2.2.2 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol mwy cymhleth, gan gynnwys hafaliadau gyda mwy nag un term ffracsiynol</p>

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>2.2.5 Ilunio, trin a datrys hafaliadau cwadratig ar y ffurf drwy ddefnyddio ffactorio</p> $x^2 + bx + c = 0$ neu $ax^2 + bx + c = 0$	
		<p>2.2.6 Ilunio, trin a datrys dau hafaliad cydamserol llinol gyda chyfernodau rhif cyfan drwy ddulliau algebraidd</p>	
		<p>2.2.7 datrys hafaliadau sy'n cynnwys ffracsiynau ag enwaduron llinol yn arwain at hafaliadau cwadratig neu llinol</p>	<p>2.2.7 datrys hafaliadau sy'n cynnwys ffracsiynau ag enwaduron llinol yn arwain at hafaliadau cwadratig neu llinol</p> <p>2.2.8 Ilunio, trin a datrys hafaliadau cwadratig ar y ffurf drwy ddefnyddio fformiwla</p> $x^2 + bx + c = 0,$ neu $ax^2 + bx + c = 0$ <p>2.2.9 datrys amrywiaeth o hafaliadau ciwbig drwy ddulliau cynnig a gwella, gan gyfiawnhau cywirdeb y datrysiad</p> <p>2.2.10 Ilunio a defnyddio hafaliadau sy'n disgrifio cyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro</p>

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
2.3 Dilyniannau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>2.3.1 adnabod, disgrifio a pharhau patrymau rhif</p> <p>2.3.2 disgrifio, mewn geiriau a symbolau, y rheol ar gyfer y term nesaf mewn dilyniant</p> <p>2.3.3 cynhyrchu dilyniannau llinol ac aflinol o ystyried rheol yr <i>n</i>fed term</p> <p>2.3.4 darganfod yr <i>n</i>fed term mewn dilyniant, sydd wedi'i roi yn rhifiadol neu'n ddiagramatig, lle mae'r rheol yn llinol</p> <p>2.3.5 darganfod yr <i>n</i>fed term mewn dilyniant, sydd wedi'i roi yn rhifiadol neu'n ddiagramatig, lle mae'r rheol yn gwadratig</p>	
2.4 Cyfesurynnau, graffiau llinol ac aflinol	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>2.4.1 defnyddio cyfesurynnau mewn 4 pedrant</p> <p>2.4.2 lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau $x = a$, $y = b$, $y = ax + b$</p> <p>2.4.3 adnabod a defnyddio'r ffurf $y = mx + c$ i gynrychioli llinell syth lle mai m yw graddiant y llinell, a c yw gwerth rhyngdoriad y</p> <p>2.4.4 lluniadu a dehongli graffiau cwadratig ar y ffurf $y = ax^2 + bx + c$, a lluniadu'r llinell $y = k$ er mwyn datrys $ax^2 + bx + c = k$</p>	

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>2.4.5 defnyddio graffiau llinell syth i leoli rhanbarthau a roddir gan anhafaleddau</p> <p>2.4.6 nodi hafaliadau llinellau sy'n baralel neu'n berpendicwlar i linell benodol</p> <p>2.4.7 llunio, trin a datrys dau hafaliad cydamserol llinol gyda chyfernodau rhif cyfan drwy ddulliau graffigol</p> <p>2.4.8 lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau $y = ax^2 + b$, $y = (ax + b)(cx + d)$, $y = a/x$, $y = ax^3$</p> <p>2.4.9 lluniadu a dehongli graffiau y $= ax^3 + b$ ac $y = ax^3 + bx^2 + cx + d$</p> <p>2.4.10 defnyddio dull graffigol i ddatrys $ax^2 + bx + c = dx + e$ ac $ax^3 + bx^2 + cx + d = ex + f$</p> <p>2.4.11 lluniadu a dehongli graffiau pan roddir y ymhlyg yn nhermau x</p>	

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
2.5 Graffiau bywyd go iawn	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>2.5.1 lluniadu a dehongli'r graffiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graffiau trawsnewid • Graffiau teithio • Graffiau eraill sy'n disgrifio sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn. <p>2.5.2 dehongli cynrychioliadau graffigol sy'n cael eu defnyddio yn y cyfryngau, gan gydnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol</p>		
			<p>2.5.3 llunio a defnyddio tangiadau i gromliniau i amcangyfrif cyfraddau newid ar gyfer ffwythiannau aflinol, a defnyddio mesurau cyfansawdd priodol i fynegi'r canlyniadau, gan gynnwys darganfod y cyflymder mewn graffiau pellter-amser a chyflymiad mewn graffiau cyflymder-amser</p> <p>2.5.4 dehongli ystyr yr arwynebedd o dan graff, gan gynnwys yr arwynebedd o dan graff cyflymder-amser a graffiau mewn cyd-destunau ymarferol eraill</p> <p>2.5.5 defnyddio'r rheol trapesiwm i amcangyfrif yr arwynebedd o dan gromlin</p>

3. Geometreg a mesurau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

- 3.1 Termau geometrig, geirfa a phriodweddau siâp
- 3.2 Defnyddio offer mathemategol ar gyfer mesur a lluniadu'n fanwl gywir
- 3.3 Mapiau, lluniadau wrth raddfa, cyfeiriannau a chynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn
- 3.4 Ffeithiau am onglau
- 3.5 Unedau a mesur
- 3.6 Perimedr, arwynebedd a chyfaint
- 3.7 Theorem Pythagoras a thrigonometreg
- 3.8 Lleoliad, cymesuredd a thrawsnewidiadau
- 3.9 Siapiau cyflun a chyfathiant

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.1 Termau geometrig, geirfa a phriodweddau siâp	Dylai dysgwyr wybod y priodweddau hanfodol, yr eirfa a'r termau geometrig canlynol:		
	<p>3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglau syth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau 	<p>3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglau syth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau 	<p>3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglau syth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trioglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment. 	<p>3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trioglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment. 	<p>3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trioglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment.
	<p>3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron</p>	<p>3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron</p>	<p>3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron</p>

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.2 Defnyddio offer mathemategol ar gyfer mesur a lluniadu'n fanwl gywir.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	3.2.1 mesur a lluniadu'n fanwl gywir: <ul style="list-style-type: none"> • llinell syth • cylch neu arc cylch • ongl o unrhyw faint. 		3.2.1 mesur a lluniadu'n fanwl gywir: <ul style="list-style-type: none"> • llinell syth • cylch neu arc cylch • ongl o unrhyw faint.
			3.2.2 defnyddio pren mesur ac onglydd i luniadu'n fanwl gywir: <ul style="list-style-type: none"> • hanerydd ongl • hanerydd llinell berpendicwlar • siapiau 2 ddimensiwn o wybodaeth a roddir am hyd ochrau ac, os yw'n briodol, yr onglau (bydd angen cwmpawdau i luniadu trionglau pan fydd tri hyd ochr yn hysbys) • locws pwynt sy'n symud fel ei fod yn bodloni amodau penodol, gan gynnwys: <ol style="list-style-type: none"> i. pellter penodol o bwynt neu linell sefydlog (bydd angen cwmpawdau) ii. cytbell o ddau bwynt neu ddwy linell sefydlog. 3.2.3 datrys problemau sy'n ymwneud â loci croestoriadol mewn dau ddimensiwn – bydd hyn yn cynnwys nodi rhanbarthau sy'n bodloni amodau penodol

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.3 Mapiau, lluniadau wrth raddfa, cyfeiriannau a chynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>3.3.1 darllen a dehongli graddfeydd</p> <p>3.3.2 defnyddio a dehongli mapiau</p> <p>3.3.3 dehongli a chynhyrchu lluniadau wrth raddfa; gellir ysgrifennu graddfeydd ar y ffurf mae 1 cm yn cynrychioli 5 m, neu 1:500</p>		<p>3.3.1 darllen a dehongli graddfeydd</p> <p>3.3.2 defnyddio a dehongli mapiau</p> <p>3.3.3 dehongli a chynhyrchu lluniadau wrth raddfa; gellir ysgrifennu graddfeydd ar y ffurf mae 1 cm yn cynrychioli 5 m, neu 1:500</p>
	<p>3.3.4 deall cyfeiriannau 3 ffigur a defnyddio'r wybodaeth hon i ddehongli a lluniadu cyfeiriannau</p>		<p>3.3.4 deall cyfeiriannau 3 ffigur a defnyddio'r wybodaeth hon i ddehongli a lluniadu cyfeiriannau</p> <p>3.3.5 dehongli cynlluniau a golygon gwedd siapiau 3 dimensiwn</p> <p>3.3.6 dehongli cynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn ar bapur isometrig</p> <p>3.3.7 dehongli rhwydi o siapiau 3 dimensiwn</p>
3.4 Ffeithiau am onglau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>3.4.1 galw i gof a defnyddio'r priodweddau onglau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swm onglau ar bwynt • Swm onglau ar linell syth • Onglau croesfertigol • Onglau eiledol, cyfatebol a mewdol rhwng llinellau paralel • Swm onglau mewn triongl 	<p>3.4.1 galw i gof a defnyddio'r priodweddau onglau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swm onglau ar bwynt • Swm onglau ar linell syth • Onglau croesfertigol • Onglau eiledol, cyfatebol a mewdol rhwng llinellau paralel • Swm onglau mewn triongl 	<p>3.4.1 galw i gof a defnyddio'r priodweddau onglau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swm onglau ar bwynt • Swm onglau ar linell syth • Onglau croesfertigol • Onglau eiledol, cyfatebol a mewdol rhwng llinellau paralel • Swm onglau mewn triongl

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>3.4.2 galw i gof a defnyddio'r priodweddau onglau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Priodweddau onglau trionglau ongl sgwâr, isosgeles a hafalochrog • Mae ongl allanol triongl yn hafal i swm onglau mewnol y ddau fertig arall • Swm yr onglau mewn pedrochr • Priodweddau onglau pedrochrau arbennig, gan gynnwys petryalau, paralelogramau a barcutiaid 	<p>3.4.2 galw i gof a defnyddio'r priodweddau onglau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Priodweddau onglau trionglau ongl sgwâr, isosgeles a hafalochrog • Mae ongl allanol triongl yn hafal i swm onglau mewnol y ddau fertig arall • Swm yr onglau mewn pedrochr • Priodweddau onglau pedrochrau arbennig, gan gynnwys petryalau, paralelogramau a barcutiaid
	Dylai dysgwyr allu galw i gof a defnyddio ffeithiau mewn perthynas â'r canlynol:		
		<p>3.4.3 Polygonau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polygonau rheolaidd ac afreolaidd • Swm onglau allanol polygon • Swm onglau mewnol ac onglau allanol polygon • Swm onglau mewnol polygon 	

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>3.4.4 Theoremau'r cylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tangiad ar unrhyw bwynt ar gylch yn berpendicwlar i'r radiws ar y pwynt hwnnw • Mae'r ongl a gynhelir gan arc yng nghanol cylch ddwywaith maint yr ongl a gynhelir ar unrhyw bwynt ar y cylchyn • Mae'r ongl a gynhelir ar y cylchyn gan hanner cylch yn ongl sgwâr • Mae onglau yn yr un segment yn hafal • Mae onglau cyferbyn pedrochr cylchol yn adio i 180° • Theorem y segment eiledol • Mae hyd tangiadau o bwynt allanol yn gyfartal 	
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>3.4.5 Ilunio profion geometrig gan ddefnyddio ffeithiau a phriodweddau onglau, gan gynnwys theoremau'r cylch</p>	

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.5 Unedau a mesur	Dylai dysgwyr wybod a gallu defnyddio'r canlynol:		
	<p>3.5.1 Amser:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nodiant ar gyfer cloc 12 a 24 awr • Eiliadau mewn munud, munudau mewn awr, oriau mewn diwrnod, diwrnodau mewn wythnos a misoedd mewn blwyddyn 	<p>3.5.1 Amser:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nodiant ar gyfer cloc 12 a 24 awr • Eiliadau mewn munud, munudau mewn awr, oriau mewn diwrnod, diwrnodau mewn wythnos a misoedd mewn blwyddyn 	<p>3.5.1 Amser:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nodiant ar gyfer cloc 12 a 24 awr • Eiliadau mewn munud, munudau mewn awr, oriau mewn diwrnod, diwrnodau mewn wythnos a misoedd mewn blwyddyn
	<p>3.5.2 Unedau Metrig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau metrig safonol hyd, màs a chynhwysedd a'r berthynas rhyngddynt 	<p>3.5.2 Unedau Metrig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau metrig safonol hyd, màs a chynhwysedd a'r berthynas rhyngddynt 	<p>3.5.2 Unedau Metrig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau metrig safonol hyd, màs a chynhwysedd a'r berthynas rhyngddynt
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>3.5.3 gwneud cyfrifiadau'n ymwneud ag amser</p> <p>3.5.4 trawsnewid rhwng unedau amser</p> <p>3.5.5 gwneud cyfrifiadau'n ymwneud â gwahanol barthau amser</p>	<p>3.5.3 gwneud cyfrifiadau'n ymwneud ag amser</p>	<p>3.5.3 gwneud cyfrifiadau'n ymwneud ag amser</p> <p>3.5.4 trawsnewid rhwng unedau amser</p>
	<p>3.5.6 gwneud amcangyfrifon synhwyrol o fesuriadau metrig mewn sefyllfaoedd bob dydd, gan gydnabod priodoldeb unedau mewn gwahanol gyd-destunau</p>		<p>3.5.6 gwneud amcangyfrifon synhwyrol o fesuriadau metrig mewn sefyllfaoedd bob dydd, gan gydnabod priodoldeb unedau mewn gwahanol gyd-destunau</p>

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>3.5.7 trawsnewid rhwng yr unedau metrig ac imperial canlynol: km – milltiroedd; cm, m – modfeddi, troedfeddi; kg – pwys; gramau – ownsys; litrau – peintiau, galwyni – bydd y cywerthoedd metrig i imperial priodol yn cael eu rhoi i ddysgwyr</p>		
	<p>3.5.8 galw i gof a defnyddio mesurau cyfansawdd ar gyfer buanedd a defnydd o danwydd. Mae'r unedau'n cynnwys: m/s, km/h, mya a myg</p>		<p>3.5.8 galw i gof a defnyddio mesurau cyfansawdd ar gyfer buanedd a defnydd o danwydd. Mae'r unedau'n cynnwys: m/s, km/h, mya a myg</p> <p>3.5.9 galw i gof a defnyddio mesurau cyfansawdd eraill, gan gynnwys dwysedd, dwysedd poblogaeth a chyfraddau llif. Mae'r unedau'n cynnwys kg/m^3, g/cm^3, poblogaeth y km^2, m^3 yr awr, litrau yr eiliad</p>
	<p>3.5.10 trawsnewid rhwng unedau arwynebedd a chyfaint</p>		<p>3.5.10 trawsnewid rhwng unedau arwynebedd a chyfaint</p>

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.6 Perimedr, arwynebedd a chyfaint	Dylai dysgwyr allu cyfrifo'r canlynol mewn siapiau 2 ddimensiwn a 3 dimensiwn:		
	<p>3.6.1 Siapiau 2 ddimensiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcangyfrif arwynebedd siâp afreolaidd sydd wedi'i luniadu ar grid sgwariau • Perimedr ac arwynebedd sgwâr, petryal, triongl, paralelogram, trapesiwm, cylch, hanner cylch a siâp cyfansawdd 		<p>3.6.1 Siapiau 2 ddimensiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcangyfrif arwynebedd siâp afreolaidd sydd wedi'i luniadu ar grid sgwariau • Perimedr ac arwynebedd sgwâr, petryal, triongl, paralelogram, trapesiwm, cylch, hanner cylch a siâp cyfansawdd
			<p>3.6.2 Siapiau 2 ddimensiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyd arcau crwn • Arwynebedd sectorau a segmentau
	<p>3.6.3 Siapiau 3 dimensiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwynebedd arwyneb, arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd ciwb, ciwboid, prism, a solid cyfansawdd • Arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd silindr • Arwynebedd arwyneb silindr • Arwynebedd arwyneb, cyfaint a chynhwysedd sffêr, côn, pyramid asolid cyfansawdd 		<p>3.6.3 Siapiau 3 dimensiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwynebedd arwyneb, arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd ciwb, ciwboid, prism, a solid cyfansawdd • Arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd silindr • Arwynebedd arwyneb silindr • Arwynebedd arwyneb, cyfaint a chynhwysedd sffêr, côn, pyramid a solid cyfansawdd

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.7 Theorem Pythagoras a thrigonometreg	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
			<p>3.7.1 defnyddio theorem Pythagoras mewn: 2 ddimensiwn, gan gynnwys problemau cildro</p> <p>3.7.2 defnyddio theorem Pythagoras mewn 3 dimensiwn, gan gynnwys problemau cildro</p> <p>3.7.3 defnyddio perthnasoedd trigonometrig mewn trionglau ongl sgwâr i ddatrys problemau, gan gynnwys y rhai â chyfeiriannau ac onglau codi a gostwng</p> <p>3.7.4 cyfrifo ochr neu ongl triongl ongl sgwâr mewn 2 ddimensiwn a 3 dimensiwn</p> <p>3.7.5 ymestyn trigonometreg i onglau o unrhyw faint</p> <p>3.7.6 cymhwyso gwybodaeth am drigonometreg gydag onglau o unrhyw faint i ddatrys problemau mewn 2 neu 3 dimensiwn, gan gynnwys defnydd priodol o'r rheolau sin a chosin</p> <p>3.7.7 defnyddio'r fformiwla: arwynebedd triongl = $\frac{1}{2}ab\sin C$</p> <p>3.7.8 braslunio, deall ymddygiad, a defnyddio graffiau ffwythiannau trigonometrig</p>

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
3.8 Lleoliad, cymesuredd a thrawsnewidiadau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>3.8.1 darganfod cyfesurynnau sydd wedi'u nodi gan wybodaeth geometregol benodol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canolbwynt llinell • pedwerydd fertig paralelogram • lleoliad sy'n cael ei bennu gan y pellter o bwynt penodol a'r ongl sy'n cael ei wneud gyda llinell benodol. <p>3.8.2 disgrifio a lluniadu siapiau gyda llinell cymesuredd</p> <p>3.8.3 lluniadu llinellau cymesuredd ar siâp</p> <p>3.8.4 deall trefn cymesuredd cylchdro a disgrifio a lluniadu siapiau â chymesuredd cylchdro</p> <p>3.8.5 disgrifio a lluniadu'r trawsffurfiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adlewyrchiad mewn llinell benodol • cylchdroeon drwy 90° neu 180°, clocwedd neu wrthglocwedd, gan ddefnyddio canol cylchdro • trawsfudo gyda chyfeiriad a phellter symudiad llorweddol a fertigol • helaethiad yn ôl cyfanrif positif neu ffactor graddfa ffracsiynol, positif, a chanol yr helaethiad 	

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<ul style="list-style-type: none"> helaethiad yn ôl ffactor graddfa negyddol a chanol yr helaethiad. <p>3.8.6 disgrifio a lluniadu dau drawsffurfiad olynol</p>	
3.9 Siapiau cyflun a chyfathiant	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
			<p>3.9.1 adnabod siapiau cyfath a chyflun</p> <p>3.9.2 defnyddio'r wybodaeth, ar gyfer dau siâp 2 neu 3 dimensiwn cyflun, bod un yn helaethiad o'r llall</p> <p>3.9.3 defnyddio'r wybodaeth, mewn siapiau cyflun, bod dimensiynau cyfatebol o'r un gymhareb</p> <p>3.9.4 defnyddio'r wybodaeth, mewn siapiau cyflun a chyfath, bod onglau cyfatebol yn hafal</p> <p>3.9.5 defnyddio'r cysylltiadau rhwng cymarebau hyd, arwynebedd, cyfaint a chynhwysedd siapiau cyflun</p> <p>3.9.6 deall a defnyddio'r amodau canlynol i brofi cyfathiant trionglau gan ddefnyddio dadleuon ffurfiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ochr-ochr-ochr (SSS) ochr-ongl-ochr (SAS) ongl-ongl-ochr (AAS) ongl sgwâr-hypotenws-ochr (RHS).

4. Ystadegaeth a thebygolrwydd

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

- 4.1 Cylch trin data – dulliau casglu
- 4.2 Cylch trin data – cynrychioli, dehongli, ac arddangos canlyniadau
- 4.3 Tebygolrwydd – un digwyddiad/arbrawf
- 4.4 Tebygolrwydd – mwy nag un digwyddiad/arbrawf

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
4.1 Cylch trin data – dulliau casglu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	<p>4.1.1 deall a defnyddio'r broses datrys problemau ystadegol: nodi'r broblem/cynllunio; casglu, prosesu a chynrychioli data; dehongli a thrafod canlyniadau, gan gynnwys cyfyngiadau data ac anomaleddau</p> <p>4.1.2 nodi a phrofi rhagdybiaethau, gan gymryd cyfyngiadau'r data sydd ar gael i ystyriaeth</p> <p>4.1.3 llunio a beirniadu cwestiynau ar gyfer holiadur, gan gynnwys y syniad o degwch a thuedd</p> <p>4.1.4 ystyried effaith maint sampl a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddibynadwyedd data a'r casgliadau a wnaed</p>		<p>4.1.1 deall a defnyddio'r broses datrys problemau ystadegol: nodi'r broblem/cynllunio; casglu, prosesu a chynrychioli data; dehongli a thrafod canlyniadau, gan gynnwys cyfyngiadau data ac anomaleddau</p> <p>4.1.2 nodi a phrofi rhagdybiaethau, gan gymryd cyfyngiadau'r data sydd ar gael i ystyriaeth</p> <p>4.1.3 llunio a beirniadu cwestiynau ar gyfer holiadur, gan gynnwys y syniad o degwch a thuedd</p> <p>4.1.4 ystyried effaith maint sampl a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddibynadwyedd data a'r casgliadau a wnaed</p>

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
			<p>4.1.5 deall a defnyddio dulliau marciau rhifo</p> <p>4.1.6 deall a defnyddio tablau amlder</p> <p>4.1.7 trefnu, dosbarthu a thablu data ansoddol (categorig), data meintiol arwahanol neu ddi-dor</p>
	<p>4.1.8 grwpio data arwahanol neu ddi-dor yn gyfyngau dosbarth o led cyfartal neu anghyfartal</p>		<p>4.1.8 grwpio data arwahanol neu ddi-dor yn gyfyngau dosbarth o led cyfartal neu anghyfartal</p>
	<p>4.1.9 nodi'r data sydd eu hangen ac ystyried dulliau samplu posibl</p> <p>4.1.10 deall, disgrifio a defnyddio gwahanol dechnegau samplu – h.y. samplu ar hap, systematig a haenedig</p>		
<p>4.2 Cylch trin data – cynrychioli, dehongli, ac arddangos canlyniadau</p>	<p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p>		
	<p>4.2.1 llunio a dehongli pictogramau, siartiau bar a siartiau cylch ar gyfer data ansoddol ac ar gyfer data meintiol arwahanol</p> <p>4.2.2 llunio a dehongli diagramau llinell fertigol ar gyfer data arwahanol</p>		<p>4.2.1 llunio a dehongli pictogramau, siartiau bar a siartiau cylch ar gyfer data ansoddol ac ar gyfer data meintiol arwahanol</p> <p>4.2.2 llunio a dehongli diagramau llinell fertigol ar gyfer data arwahanol</p>

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	<p>4.2.3 llunio graffiau llinell ar gyfer gwerthoedd newidyn ar bwyntiau amrywiol mewn amser; deall efallai y bydd neu na fydd ystyr i'r gwerthoedd canolraddol mewn graff llinell</p>		<p>4.2.3 llunio graffiau llinell ar gyfer gwerthoedd newidyn ar bwyntiau amrywiol mewn amser; deall efallai y bydd neu na fydd ystyr i'r gwerthoedd canolraddol mewn graff llinell</p> <p>4.2.4 llunio diagramau gwasgariad ar gyfer data am newidynnau wedi'u paru</p> <p>4.2.5 lluniadu 'â'r llygad' linell 'ffit orau' a deall a dehongli'r hyn mae'n ei gynrychioli. Mewn cwestiynau lle mae'r pwynt cymedrig wedi'i roi, ei gyfrifo neu ei blotio, disgwylir i'r ymgeiswyr luniadu'r llinell 'ffit orau' drwy'r pwynt hwnnw</p> <p>4.2.6 dehongli diagramau gwasgariad a dod i gasgliadau; defnyddio termau fel cydberthyniad positif, cydberthyniad negatif, fawr ddim neu ddim cydberthyniad</p> <p>4.2.7 sylweddoli nad yw cydberthyniad yn awgrymu achosiaeth</p> <p>4.2.8 dod o hyd i'r cymedr, canolrif, modd ac amrediad rhestr o werthoedd</p> <p>4.2.9 llunio a dehongli diagramau amllder grŵp a pholygonau amllder</p>

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
			<p>4.2.10 darganfod cymedr, canolrif, modd ac amrediad dosraniad amllder arwahanol (heb ei grwpio)</p> <p>4.2.11 darganfod amcangyfrif ar gyfer cymedr dosraniad amllder grŵp</p> <p>4.2.12 darganfod amcangyfrif ar gyfer canolrif dosraniad amllder grŵp</p> <p>4.2.13 penderfynu ar y categori modd ar gyfer data ansoddol a dosbarth modd ar gyfer data wedi'i grwpio</p> <p>4.2.14 penderfynu ar y grŵp sy'n cynnwys y canolrif ar gyfer data wedi'u grwpio</p> <p>4.2.15 dewis, cyfrifo ac amcangyfrif mesurau priodol o ganolduedd (h.y. y cymedr, y canolrif neu'r modd)</p> <p>4.2.16 cymharu dosraniadau data gan ddefnyddio un mesur canolduedd a/neu un mesur o wasgariad</p> <p>4.2.17 dewis, cyfrifo ac amcangyfrif mesurau priodol o wasgariad, gan gynnwys yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel wedi'u defnyddio yng nghydestun data arwahanol, data wedi'u grwpio a data di-dor</p>

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
			<p>4.2.18 llunio a dehongli tablau a diagramau amlder cronus, gan gynnwys amcangyfrif y canolrif, amrediad rhyngchwartel a chanrannau eraill</p> <p>4.2.19 dehongli a defnyddio diagramau blwch a blewyn i gymharu dosraniadau</p> <p>4.2.20 llunio a dehongli histogramau â lled dosbarth anghyfartal, gan gynnwys cyfrifo'r canolrif a chanrannau eraill y dosraniad</p>
	<p>4.2.21 sylweddoli y gall graffiau fod yn gamarweiniol</p> <p>4.2.22 edrych ar ddata i ddarganfod patrymau ac eithriadau</p> <p>4.2.23 llunio rhesymiadau a chasgliadau ar fesurau cryno a chynrychioliadau data, gan gysylltu canlyniadau â'r broblem wreiddiol</p>		<p>4.2.21 sylweddoli y gall graffiau fod yn gamarweiniol</p> <p>4.2.22 edrych ar ddata i ddarganfod patrymau ac eithriadau</p> <p>4.2.23 llunio rhesymiadau a chasgliadau ar fesurau cryno a chynrychioliadau data, gan gysylltu canlyniadau â'r broblem wreiddiol</p>

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
4.3 Tebygolrwydd – un digwyddiad/arbrawf	Dylai dysgwyr wybod:		
		<p>4.3.1 geirfa tebygolrwydd, gan gynnwys y syniadau o ansicrwydd a risg</p> <p>4.3.2 ystyr y termau 'teg', 'siawns deg', 'sigr', 'tebygol', 'annhebygol' ac 'amhosibl'</p> <p>4.3.3 bod y raddfa tebygolrwydd yn ymestyn o 0 i 1</p> <p>4.3.4 bod tebygolrwyddau yn gallu cael eu mynegi fel ffracsiynau, degolion neu ganrannau</p> <p>4.3.5 mai 1 yw cyfanswm tebygolrwydd holl ganlyniadau posibl arbrawf</p>	
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>4.3.6 cyfrifo tebygolrwyddau damcaniaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau sydd yr un mor debygol</p> <p>4.3.7 amcangyfrif tebygolrwydd digwyddiad fel y gyfran o weithiau mae wedi digwydd – cysylltu â thystiolaeth arbrofol ac amllder cymharol</p>	

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
		<p>4.3.8 llunio a dehongli cynrychioliad graffigol o amlder cymharol yn erbyn nifer y treialon a deall bod disgwyl sefydlogrwydd tymor hir amlder cymharol</p> <p>4.3.9 cymharu tebygolrwydd a gafodd ei amcangyfrif ar sail canlyniadau arbrofol, â thebygolrwydd damcaniaethol</p> <p>4.3.10 deall a defnyddio'r nifer disgwylledig o lwyddiannau digwyddiad pan fydd arbrawf yn cael ei ailadrodd, a digwyddiadau yr un mor debygol</p>	
4.4 Tebygolrwydd – mwy nag un digwyddiad/arbrawf	Dylai dysgwyr wybod:		
		<p>4.4.1 os yw A a B yn ddigwyddiadau cydanghynhwysol, y tebygolrwydd y bydd A neu B yn digwydd yw $P(A) + P(B)$</p> <p>4.4.2 os yw A a B yn ddigwyddiadau annibynnol, y tebygolrwydd y bydd A a B yn digwydd yw $P(A) \times P(B)$</p>	

Adran ystadegaeth a thebygolrwydd	Ymhelaethiad		
	Uned 1	Uned 2	Uned 3
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		<p>4.4.3 nodi holl ganlyniadau cyfuniad o arbrofion, gan gynnwys rhestri, diagramau gofod sampl, diagramau canghennog a diagramau Venn</p> <p>4.4.4 gwybod pryd mae angen adio tebygolrwyddau ar gyfer digwyddiadau cydanghynhwysol a lluosu tebygolrwyddau ar gyfer dau ddigwyddiad annibynnol</p> <p>4.4.5 adnabod pan fydd problemau'n cynnwys tri digwyddiad annibynnol, a gallu cyfrifo'r tebygolrwydd gofynnol</p> <p>4.4.6 adnabod pan fydd problemau'n cynnwys dau neu dri digwyddiad dibynnol, a gallu cyfrifo'r tebygolrwydd gofynnol, gan gynnwys samplu heb ei roi'n ôl</p>	

Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau hyn eu hasesu'n uniongyrchol):

- datblygu sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd mewn llythrennedd a chymhwysedd digidol
- gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol
- gwneud cysylltiadau priodol â rhannau eraill o'r cwricwlwm er mwyn gwerthfawrogi'r rôl y mae mathemateg yn ei chwarae mewn meysydd pwnc eraill
- magu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o rai o'r gwahanol yrfaeoddedd a meysydd cysylltiedig â gwaith sy'n defnyddio mathemateg
- cael mynediad at dasgau cyfoethog sy'n ennyn chwilfrydedd, yn meithrin gwytnwch, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr fod yn ddyfeisgar
- ymgymryd â gwaith ymarferol sy'n rhoi cyfle i Ddysgwyr gymhwyso eu sgiliau mathemategol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth
- defnyddio technolegau digidol i wella dealltwriaeth ddigidol a chryfhau sgiliau mathemategol a rhifedd
- dod wyneb yn wyneb â phroblemau cyfarwydd, anghyfarwydd a chymhleth.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Galw i gof a defnyddio eu gwybodaeth o'r cynnwys penodedig:

- dangos dealltwriaeth gysyniadol drwy gofio a defnyddio ffeithiau mathemategol, perthnasoedd, cysyniadau a thechnegau
- dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau'n cynnwys trefnau arferol yn rhugl

AA2

Dewis a chymhwyso dulliau mathemategol:

- dewis a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys problem yn rhugl
- dewis a chymhwyso dulliau mathemategol i ddatrys problemau aml-gam, ansafonol neu anstrwythuredig yn rhugl
- gwneud penderfyniadau wrth fynd i'r afael â thasg benodol, er enghraifft, gan ddewis sut i arddangos gwybodaeth benodol
- cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio amrediad eang o iaith fathemategol, nodiant a symbolau i esbonio rhesymu ac i fynegi syniadau mathemategol yn ddiamwys

AA3

Dangos cymhwysedd strategol drwy wneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar fathemateg a defnyddio sgiliau mathemategol mewn cyd-destunau anghyfarwydd:

- dangos cymhwysedd strategol drwy ddehongli a dadansoddi problemau a chreu strategaethau i'w datrys
- dyfeisio strategaethau i ddatrys problemau anrheolaidd neu anghyfarwydd, gan eu torri'n dasgau llai, mwy hylaw, lle bo angen
- llunio dadleuon a phrofion gan ddefnyddio rhesymu a diddwytho rhesymegol
- dehongli canfyddiadau neu ddatrysiadau yng nghyd-destun y broblem wreiddiol
- defnyddio rhesymiaidau a diddwythiadau sy'n cael eu gwneud o wybodaeth fathemategol a dod i gasgliadau

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ym mhob uned ar gyfer y cymhwyster cyfan, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canran ar gyfer y pwysoliad cyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	10.5% (9%-12%)	13.5% (12%-15%)	6% (4.5%-7.5%)	30%
Uned 2	19.5% (18%-21%)	4.5% (3%-6%)	6% (4.5%-7.5%)	30%
Uned 3	20% (16%-20%)	12% (10%-14%)	8% (6%-10%)	40%
Pwysoliad cyffredinol	50% (45-55%)	30% (25-35%)	20% (15-25%)	100%

Cwestiynau a osodir mewn cyd-destun

Bydd gofyn i ddysgwyr ymateb i gwestiynau a osodir mewn cyd-destun a chwestiynau heb gyd-destun ym mhob un o'r tri arholiad ysgrifenedig.

Gosodir cwestiynau mewn cyd-destun yn un o'r categorïau cyd-destunol canlynol:

- cyd-destunau personol a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - cyllid personol
 - iechyd personol
 - teithio
- gyrfaoedd, cyflogaeth a chyd-destunau sy'n seiliedig ar waith a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - cadw amser
 - cyflogres
 - cyllid
- cyd-destunau cymdeithasol a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - yr economi
 - demograffeg
- gallai cyd-destunau gwyddonol, technolegol ac amgylcheddol gynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - yr hinsawdd
 - meddygaeth
 - cyfrifiadura.

Mae **Uned 1** yn canolbwyntio'n benodol ar asesu dysgwyr drwy gyd-destunau personol a byd go iawn eraill. Bydd gofyn i ddysgwyr ddewis a chymhwyso dulliau mathemategol i'r cyd-destunau byd go iawn hyn.

Mae **Uned 2** yn canolbwyntio ar fathemateg digyfrifiannell, gyda phwyslais ar algebra, tebygolrwydd a geometreg.

Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau heb gyd-destun a chwestiynau wedi'u gosod mewn cyd-destunau mathemategol a chyd-destunau eraill.

Bydd gan **Uned 3** rai cwestiynau sydd yn eu cyd-destun, ac eraill heb gyd-destun. Bydd y cwestiynau sydd yn eu cyd-destun yn canolbwyntio'n bennaf ar ystadegau a mesurau.

Trefnu, cyfathrebu ac ysgrifennu'n fanwl gywir

Dyfernir dau farc ar bob papur arholiad, ar bob haen, am asesu 'cyfathrebu, trefnu ac ysgrifennu'n fanwl gywir'. Bydd y marciau hyn yn ychwanegol at y marciau a ddyrannwyd am y fathemateg. Dyfernir un marc am gyfathrebu a threfnu. Dyfernir y marc arall am ysgrifennu'n fanwl gywir. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu dangos yn glir ar bob papur arholiad.

Ar gyfer marciau sy'n ymwneud â threfnu a chyfathrebu, disgwylir i ymgeiswyr:

- gyflwyno eu hateb mewn ffordd strwythuredig
- esbonio i'r darlennydd yr hyn maen nhw'n ei wneud ym mhob cam o'u hateb
- gosod eu hesboniadau a'u gwaith cyfrifo mewn ffordd glir a rhesymegol
- ysgrifennu casgliad sy'n dwyn ynghyd eu canlyniadau ac sy'n esbonio ystyr eu hateb

Ar gyfer marciau sy'n ymwneud ag ysgrifennu'n fanwl gywir disgwylir i ymgeiswyr:

- ddangos eu holl waith cyfrifo
- defnyddio ffurf fathemategol gywir yn eu gwaith cyfrifo
- defnyddio terminoleg briodol, unedau priodol ac ati

Defnyddio cyfrifiannellau

Rhaid i'r cyfrifiannellau fodloni'r rheoliadau canlynol.

<p>Rhaid i gyfrifiannellau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod o faint addas i'w defnyddio ar y ddesg • naill ai wedi'u gyrru gan fatri neu egni solar • heb gaead, cas na chlawr sydd â chyfarwyddiadau neu fformiwlâu wedi'u hargraffu arnynt. 	<p>Ni chaiff cyfrifiannellau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'u dylunio na'u haddasu i gynnig unrhyw rai o'r cyfleusterau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • cyfieithwyr iaith • triniaeth algebra symbolaidd • differu neu integru symbolaidd • cyfathrebu o bell â pheiriannau eraill neu'r rhyngwyd • bod wedi'u benthyc gan ymgeisydd arall yn ystod arholiad am unrhyw reswm* • bod â gwybodaeth adferadwy wedi'i storio ynddynt – mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • banciau data • geiriaduron • fformiwlâu mathemategol • testun.
<p>Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflenwad pŵer y gyfrifiannell • cyflwr gweithio'r gyfrifiannell • clirio unrhyw beth sydd wedi'i storio yn y gyfrifiannell. 	


* Gall goruchwyliwr roi cyfrifiannell arall i ymgeisydd.

Rhestrau fformiwlâu

Bydd gan Uned 1 ac Uned 3 restr fformiwlâu ar ddechrau'r papur arholi. Mae'r rhestrau a roddir fel a ganlyn.


Rhestr Fformiwlâu – Uned 1 Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a+b)h$




Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf
(e.e. Prism, Silindr)

Cyfaint = arwynebedd y trawstoriad \times hyd




Rhestr Fformiwlâu Uned 1 Haen Uwch

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a+b)h$




Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf (e.e. Prism, Silindr)

Cyfaint = arwynebedd trawstoriad × hyd




Cyfaint sffêr = $\frac{4}{3}\pi r^3$

Arwynebedd arwyneb sffêr = $4\pi r^2$



Cyfaint côn = $\frac{1}{3}\pi r^2 h$

Arwynebedd arwyneb crwm côn = $\pi r l$




Cyfradd Gywerth Flynyddol (AER)

Mae'r Gyfradd Gywerth Flynyddol (AER), fel degolyn, yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla $\left(1 + \frac{i}{n}\right)^n - 1$. Yma *i* yw'r gyfradd llog enwol y flwyddyn fel degolyn ac *n* yw nifer y cyfnodau adlogi y flwyddyn.


Rhestr Fformiwlâu – Uned 3 Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a+b)h$




Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf (e.e. Prism, Silindr)

Cyfaint = arwynebedd trawstoriad × hyd




Rhestr Fformiwlâu – Uned 3 Haen Uwch

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a+b)h$




Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf (e.e. Prism, Silindr)

Cyfaint = arwynebedd trawstoriad × hyd




Cyfaint sffêr = $\frac{4}{3}\pi r^3$

Arwynebedd arwyneb sffêr = $4\pi r^2$



Cyfaint côn = $\frac{1}{3}\pi r^2 h$

Arwynebedd arwyneb crwm côn = $\pi r l$




Mewn unrhyw driongl ABC,

Y rheol sin: $\frac{a}{\sin A} = \frac{b}{\sin B} = \frac{c}{\sin C}$

Y rheol cosin: $a^2 = b^2 + c^2 - 2bc \cos A$

Arwynebedd triongl = $\frac{1}{2}ab \sin C$



Yr Hafaliad Cwadratig

Mae datrysiadau $ax^2 + bx + c = 0$ lle bo $a \neq 0$ yn cael eu rhoi gan $x = \frac{-b \pm \sqrt{b^2 - 4ac}}{2a}$

4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd).

Mae ein [Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn](#) yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amu Camymddwyn: Polisiau a Gweithdrefnau](#).

5 GWYBODAETH DECHNEGOL

5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf a mis Tachwedd bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn haf 2026 a mis Tachwedd 2026 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael ym mis Tachwedd 2026 a haf 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny) ac fe ddyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Pennir y rheol derfynol ar 30% o gymhwyster cyffredinol TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd). Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 30%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 31 Awst yn y flwyddyn y cânt eu cofrestru ynddi)

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 30% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Ymgeiswyr Ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn y cânt eu cofrestru ynddi)

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig mwyaf diweddar yn unig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 30% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Nodir y codau cofrestru isod:

		Codau cofrestru	
		Cwfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
Uned 1 – Uwch	Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd	3320U1	3320N1
Uned 1 – Sylfaenol	Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd	3320UA	3320NA
Uned 2 – Uwch	Digyfrifiannell	3320U2	3320N2
Uned 2 – Sylfaenol	Digyfrifiannell	3320UB	3320NB
Uned 3 – Uwch	Caniateir cyfrifiannell	3320U3	3320N3
Uned 3 – Sylfaenol	Caniateir cyfrifiannell	3320UC	3320NC
CBAC TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)		3320QD	3320CD

5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau dwyradd TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*A*-GG, ac A*A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

5.3 Haenu

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer pob uned yn y cymhwyster hwn.

Haen Uwch: A* – D

Haen Sylfaenol: C – G

Gellir cofrestru dysgwyr ar haenau gwahanol ar draws unedau.

Bydd y marciau crai a enillwyd ym mhob un o'r tair uned yn cael eu trawsnewid i roi marc Graddfa Marciau Unffurf (GMU) i ddysgwr ar gyfer pob uned. Bydd uchafswm y GMU sydd ar gael ar gyfer pob asesiad yn unol â'r graddau sydd ar gael ar gyfer yr haen a gymerir ym mhob asesiad. Yna bydd y rhain yn cael eu cyfuno i roi marc UMS terfynol, gan gyflwyno gradd gyffredinol y dysgwr yn y cymhwyster hwn.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Uchafswm marciau crai	Uchafswm GMU	A*	A	B	C	D	E	F	G
1 (30%)	80	120	108	96	84	72	60	48	36	24
2 (30%)	80	120	108	96	84	72	60	48	36	24
3 (40%)	90	160	144	128	112	96	80	64	48	32

Ar gyfer Unedau 1 a 2, yr uchafswm marciau unffurf fydd ar gael ar haen sylfaenol yr asesiad yw 83 (h.y. 1 marc unffurf yn is na'r isafswm sydd ei angen i ennill gradd B am yr uned). Ar gyfer Uned 3, yr uchafswm marciau unffurf fydd ar gael ar haen sylfaenol yr asesiad yw 111.

Dyfernir dwy radd y cymhwyster ar raddfa wyth pwynt A*A*-GG. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill yr isafswm gofynnol o farciau unffurf i ennill gradd G, cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig).

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd dwy radd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn. Bydd cyfanswm y canlyniadau a adroddir ar y GMU yn cyfateb i'r graddau canlynol ar y raddfa wyth pwynt.

Uned	Uchafswm marciau crai	Uchafswm GMU	A*A*	AA	BB	CC	DD	EE	FF	GG
Cyfanswm	250	400	360	320	280	240	200	160	120	80

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Llinynnau Cwricwlwm i Gymru	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Themâu trawsbynciol			
Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol	✓	✓	✓
Agwedd Cynaliadwyedd ar Gyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol	✓	✓	✓
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb			
Hawliau Dynol	✓	✓	✓
Amrywiaeth	✓	✓	✓
Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith	✓	✓	✓
Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd			
Gwranddo	✓	✓	✓
Darllen	✓	✓	✓
Siarad	✓	✓	✓
Ysgrifennu	✓	✓	✓

Llinynnau Cwricwlwm i Gymru	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd			
Datblygu Hyfedredd Mathemategol	✓	✓	✓
Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	✓	✓	✓
Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesuriad yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn	✓	✓	✓
Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus	✓	✓	✓
Cymhwysedd Digidol			
Dinasyddiaeth			
Rhyngweithio a Chydweithio	✓	✓	✓
Cynhyrchu	✓	✓	✓
Data a Meddwl Cyfrifiannol	✓	✓	✓
Sgiliau Cyfannol			
Creadigrwydd ac Arloesi	✓	✓	✓
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	✓	✓	✓
Cynllunio a Threfnu	✓	✓	✓
Effeithiolrwydd Personol	✓	✓	✓

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.